

# Gwers 3 – Arch Noa

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Genesis 6:9 – 7:24

**Y**n dilyn cyfarwyddyd Duw, 'Byddwch ffrwythlon ac amlhewch' (1:28), cynyddodd y teulu dynol ac ym mhenodau 4 a 5, cyfarfyddwn â rhai o ddisgynyddion Adda. Deuwn ar draws enwau Cain, Abel a Seth (plant Adda ac Efa), Enos (mab Seth); yn ddiweddarach Enoch, Methwsela (mab Enoch) a fu fyw am 969 mlynedd, a Lamech. Ganwyd mab i Lamech – Noa.

Yn dilyn y Cwmp yn Eden (gwers 2) roedd drygioni'n amlwg. Cain oedd y baban dynol cyntaf a dilynwyd ef gan Abel. Dengys Cain nodweddion gwaelaf, a phechadurus, yr hil ddynol; cenfigen ac ymryson rhwng brodyr yn esgor ar ddieter, a hwnnw'n arwain at lofruddiaeth. Mae'r Beibl yn ystyried Cain fel plentyn y diafol (gweler 1 Ioan 3:12), yn lofrudd a chelwyddgi (Ioan 8:44). Twylodd Cain ei frawd Abel, ei arwain i'r maes a'i ladd; twylodd ei hun i gredu y gallai gyflawni'r fath weithred heb roi cyfrif ohoni, a cheisiodd gelu'r gwirionedd oddi wrth Dduw. Sylwer fel y mae Duw'n cwestiynu Cain, fel yn hanes Adda ac Efa, nid i gasglu gwybodaeth (mae Duw'n gwybod popeth), ond i roi cyfle i'r troseddwr i ddweud y gwir ac i gyffesu ei bechodau. Yny ddau achos mae'r pechaduriaid yn gyfrwys ac yn ceisio celu eu hanfadwaith, ond datgelodd Duw eu pechodau a bu rhaid iddynt gyfaddef eu heuogrwydd.

Erbyn dyddiau Noa roedd y sefyllfa wedi dirywio'n fawr – "Gwelodd yr Arglwydd fod drygioni'r bobl yn fawr ar y ddaear, a bod holl ogwydd eu bwriadau yn ddrwg" (6.5). Trwy ddewis anufuddhau roedd Adda ac Efa a'u disgynyddion yn herio awdurdod Duw ar ei greadigaeth, yn cynnwys y ddynoliaeth. Dewisodd dyn ei lwybr ei hun, o baradwys i fyd caled a chreulon, wedi ei wahanu oddi wrth Dduw.

Oherwydd iddo gael ei greu ar lun a delw Duw, ni allai dyn golli'r berthynas yn llwyr, ac nid oedd Duw'n fodlon i adael y sefyllfa heb ymyrryd ymhellach. Mewn emyn o'i eiddo mae Pedr Fardd yn sôn am gyngor Tri yn Un, yn trefnu 'ffordd i achub gwael, golledig, euog ddyn', a hynny 'Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen, cyn gosod haul na lloer na sêr uwchben.'

Trwy achub Noa, y gŵr cyfiawn, a'i deulu, dengys Duw ei fod yn Dduw trugarog, ac yn awyddus bob amser i gael dyn i fyw yn ôl ei ewyllys Ef. Y tro hwn nid un dyn sy'n cael ail gyfle, ond y ddynoliaeth gyfan.

### **A oedd Methwsela yn wir yn 969 mlwydd oed a Noa'n 950 mlwydd oed pan fuont farw?**

Dyna ddywed Genesis! Y mae cofnodion eraill, e.e. un o Fabilon sy'n cyfeirio at naw neu ddeg brenin, cyn dyddiau'r dilyw, yn teyrnasu am gyfanswm rhwng 18,000 a 65,000 mlynedd!

Yr esboniad poblogaidd yw fod Duw ar y dechrau wedi addo 'hir oes' i ddyn ond collodd hynny yn y Cwmp.

### **Pwy oedd Noa?**


Amaethwr a gwinllanwr, gyda thri mab, Sem, Cham a Jaffeth. Roedd yn ŵr cyfiawn ac yn rhodio gyda Duw (6:9). Dangosodd ei natur ddynol trwy fod y meddwyn cyntaf ar y ddaear (9:20, 21).

### **Beth oedd yr 'arch'?**

Yn llythrennol dyna ydoedd, arch. Math ar grât, bocs mawr yn mesur 140metr x 23metr x 13.5 metr.

### **Y Cyfamod**

Yn dilyn y dilyw gwnaeth Duw gyfamod gyda Noa. Addawodd na fyddai byth eto'n anfon dilyw.



Dyweddodd Duw wrth Noa am gasglu dau o bob math o anifail at ei gilydd.

Pa un o'r anifeiliaid hyn sy'n aros i fynd i mewn i'r arch na ddylai fod yno?

Edrych yn Genesis 6:21 i weld pa anifeiliaid ddywedodd Duw wrth Noa am eu rhoi yn yr arch.

# Gwers 3 – Arch Noa

## Noa'n adeiladu cwch | Genesis 6

### Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 18



#### **Gwers 3**

Arch Noa

#### **BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN 7 oed.**

Arch Noa tud 18

#### **BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DROS 7 oed.**

Y cwch tri-llawr tud 18

#### **BEIBL LLIW STORI DUW**

Arch Noa tud 16

#### **BEIBL BACH STORI DUW**

Dechrau Newydd tud 38

#### **BEIBL NEWYDD Y STORIWR**

Addewid Arbennig tud 12

#### **BEIBL LLIW Y PLANT**

Arch Noa tud 24

#### **BEIBL NEWYDD Y PLANT**

Noa'n adeiladu cwch tud 22

#### **BEIBL BACH I BLANT**

Glaw, Glaw, Glaw! tud 28

#### **Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau**

Hanes Noa tud 17

#### **BEIBL LLIW Y TEULU**

Noa yn adeiladu llong tud 58

#### **I ddechrau...**

Gêm gardiau 'Donkey' lle mae angen paru anifeiliaid.

Neu,

Dewiswch 16 cerdyn o'r pecyn 'Donkey' (8x2 anifail), neu gallwch baratoi eich cardiau eich hun. Rhowch y cardiau wyneb i lawr ar y bwrdd, a rhowch gyfle i bob plentyn droi 2 gerdyn yn ei dro. Os bydd yn troi 2 gerdyn gyda'r un anifail, caiff gadw'r cardiau. Pwy fydd â'r nifer fwyaf o barau ar ddiwedd y gêm?

#### **Yr Hanes...**

Eglurwch fod i'r holl anifeiliaid a welwyd yn y gêm agoriadol le yn y stori.

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau ar y Rhestr Adnoddau. Defnyddiwch y Llinell Amser i ddangos fod hanes Noa yn dilyn hanes y Creu. Dangoswch lle mae'r hanes i'w gael mewn Beibl arferol a gofynnwch i'r plant ddod o hyd i enw Noa a'r gair 'arch' yn y Beibl.

#### **Atgyfnerthu'r stori...**

Cwis. Rhannwch y dosbarth yn dimau ac adolygu'r hanes wrth ofyn cwestiynau. Wedi ateb cwestiwn yn gywir, rhaid i'r tîm enwi 3 anifail cyn cael pwynt. Nid oes hawl i ail adrodd enwau anifeiliaid felly bydd yn anoddach wrth i'r gêm fynd yn ei blaen.


#### **Cymhwys**

**a)** Dangoswch wahanol enghreifftiau o chwalwyr/rwberi, e.e. rhai ar ben pensel, rhai ar ffurf anifail, rhai lliw, rhai plaen, a hylif/pen Tippex. Gofynnwch i beth y defnyddir y rhain? Bydd y plant wedi arfer defnyddio chwalwr wrth wneud eu gwaith ysgol. Mae oedolion yn defnyddio Tippex i guddio camgymeriadau a dechrau eto.

Beth am gynnal ras i weld pa blentyn sydd gyflymaf yn chwalu llinell bensei ar bapur?

Eglurwch fod Duw, wedi iddo greu byd hyfryd, yn gweld camgymeriadau yn ymddangos ym mywydau pobl, a'i fod wedi penderfynu dechrau eto. Nid chwalwr a ddefnyddiodd Duw, ond llif/dilyw mawr i lanhau'r byd.

**b)** Bydd angen naill ai, cerdyn crwn neu falŵn. Tynnwch lun y wyneb canlynol arno – mae'n wyneb trist, ond o'i droi fe welir y wyneb yn gwenu.



Dangoswch y wyneb trist i'r plant a gofynnwch beth mae pobl yn ei wneud i frifo ei gilydd? Gofynnwch beth sydd angen i bobl ei wneud i wneud pobl eraill yn hapus?

### Dysgu adnod

'A rhiodd Noa gyda Duw.' (Genesis 6:9)

Eglurwch fod yr adnod yn dweud fod Noa wedi gwranddo ar Dduw a cheisio ufuddhau iddo. Wedi dysgu'r adnod, ewch o amgylch y dosbarth yn dweud enwau'r plant yn eu tro yn lle enw Noa, e.e. A rhiodd Catrin gyda Duw/A rhiodd Alun gyda Duw.

Mae beibl.net yn awgrymu - 'Roedd gan Noa berthynas agos gyda Duw.'

Gofynnwch i'r plant feddwl a ydynt yn ceisio rhodio gyda Duw. Beth allent ei wneud yn well, neu yn ychwanegol er mwyn rhodio gyda Duw?

### Gweddi

Gofynnwch i'r plant enwi eu hoff anifail/pysgodyn/aderyn. Cyflwynwch anifeiliaid y ddaear i Dduw, gan ofyn iddo ddiogelu'r rhai sydd mewn perygl neu sy'n cael eu cam-drin.

### Crefft

### Cân

Y gân 'Ribidires' gan Edward Morris Jones neu 'Ted y twrci tew', (rhif 30 Tyrd i Ddathlu)

## Adnoddau Ychwanegol

### Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed Noa'n adeiladu arch tud. 10

### Tafleenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres A - Noa

### Cyfres DVD Stori Duw

Stori 3: Noa a'r Dilyw Mawr

### Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 264

### Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 3 Glaw, Glaw, Glaw

### Llyfrau Stori

Arch Noa

I mewn i'r arch a nhw

Noa a'i Long Enfawr

Noa a'r Anifeiliaid

Pos Llawr Enfawr Noa

Hwyl Jigso - Noa a'i Arch

Llyfr Stensil Anifeiliaid y Beibl:

Noa a'i arch

